

Aloi magnesiwm newydd yn gwrthsefyll cyrydiad

Darllenwch yr erthygl lawn yn [rsc.li/3PJwhhl](https://www.rsc.li/3PJwhhl)

Mae'r ffaith bod magnesiwm yn ysgafn, yn gryf a bod digonedd ohono ar gael yn y Ddaear yn golygu ei fod yn cael ei ddefnyddio'n eang mewn meysydd modurol, awyrofod, biofeddygol a storio ynni. Mae magnesiwm yn ysgafnach nag alwminiwm, felly gallai disodli alwminiwm â magnesiwm gwrthstaen mewn ceir ac awyrennau olygu bod angen defnyddio llai o danwydd ac felly bydd llai o allyriadau carbon deuocsid. Fodd bynnag, mae defnyddio magnesiwm ar raddfa ddiwydiannol wedi cael ei gyfyngu oherwydd ei fod yn cyrydu mewn amgylcheddau dyfrllyd.

Mae gwyddonwyr wedi creu aloi sydd â chyfradd gynyddu isel iawn drwy gymysgu magnesiwm pur gyda symiau bach iawn o galsiwm. Drwy ddefnyddio dim ond symiau bach iawn o galsiwm, mae'r aloi newydd yn cadw priodweddau magnesiwm pur. Fodd bynnag, mae'n gallu gwrthsefyll cyrydiad oherwydd ei fod wedi datblygu ffilm warchod ar yr arwyneb.



Mae magnesiwm yn gallu bod yn adweithiol iawn pan fydd yn dod i gysylltiad â'r amodau cywir

Aloi magnesiwm newydd yn gwrthsefyll cyrydiad

Darllenwch yr erthygl lawn yn [rsc.li/3PJwhhl](https://www.rsc.li/3PJwhhl)

Mae'r ffaith bod magnesiwm yn ysgafn, yn gryf a bod digonedd ohono ar gael yn y Ddaear yn golygu ei fod yn cael ei ddefnyddio'n eang mewn meysydd modurol, awyrofod, biofeddygol a storio ynni. Mae magnesiwm yn ysgafnach nag alwminiwm, felly gallai disodli alwminiwm â magnesiwm gwrthstaen mewn ceir ac awyrennau olygu bod angen defnyddio llai o danwydd ac felly bydd llai o allyriadau carbon deuocsid. Fodd bynnag, mae defnyddio magnesiwm ar raddfa ddiwydiannol wedi cael ei gyfyngu oherwydd ei fod yn cyrydu mewn amgylcheddau dyfrllyd.

Mae gwyddonwyr wedi creu aloi sydd â chyfradd gyrydu isel iawn drwy gymysgu magnesiwm pur gyda symiau bach iawn o galsiwm. Drwy ddefnyddio dim ond symiau bach iawn o galsiwm, mae'r aloi newydd yn cadw priodweddau magnesiwm pur. Fodd bynnag, mae'n gallu gwrthsefyll cyrydiad oherwydd ei fod wedi datblygu ffilm warchod ar yr arwyneb.

1. Diffiniwch y geiriau 'aloi' a 'cyrydiad'.
2. Nodwch un o fanteision defnyddio aloi magnesiwm mewn car.
3. Awgrymwch sut mae'r aloi newydd hwn yn gwrthsefyll cyrydiad.



Mae magnesiwm yn gallu bod yn adweithiol iawn pan fydd yn dod i gysylltiad â'r amodau cywir